

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid  
Questions to the Finance Minister
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad  
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

### Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

#### Y Portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes The Education and Lifelong Learning Portfolio

**Q11 Nick Bourne:** Will the Minister provide an update on any additional funding that she is making available this year for the education and lifelong learning portfolio? OAQ0473(FIN)

**The Finance Minister (Sue Essex):** I will be making a statement on the in-year changes to portfolio budgets later today.

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gyllid ychwanegol y mae am ei ddarparu eleni ar gyfer y portffolio addysg a dysgu gydol oes? OAQ0473(FIN)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Byddaf yn gwneud datganiad yn ddiweddarach heddiw am newidiadau i gyllidebau'r portffolios yn ystod y flwyddyn.

#### Polisi Caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru The Welsh Assembly Government's Procurement Policy

**C12 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0502(FIN)

**Sue Essex:** Assembly procurement policies are based on achieving best value for money while complying with all national and European Union regulations. Great emphasis is placed on sustainability, equality and social inclusion in procurement, in line with Assembly core values. We have recently introduced a mandatory checklist, which will ensure that these factors are considered in all our contracts.

**Q12 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's procurement policy? OAQ0502(FIN)

**Sue Essex:** Mae polisiau caffael y Cynulliad wedi eu seilio ar gael y gwerth gorau am arian wrth gydymffurfio â holl reoliadau y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Rhoddir pwyslais mawr ar gynaliadwyedd, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol wrth gaffael, yn unol â gwerthoedd craidd y Cynulliad. Yr ydym wedi cyflwyno rhestr gyfeirio orfodol yn ddiweddar, a fydd yn sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu

hystyried yn ein contractau i gyd.

### **Cyllido Cymru i'r Dyfodol The Future Funding of Wales**

**Q13 Eleanor Burnham:** What discussions has the Minister had with the Treasury with regard to the future funding of Wales? OAQ0496(FIN)

**C13 Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Trysorlys ynghylch cyllido Cymru i'r dyfodol? OAQ0496(FIN)

**Sue Essex:** I meet regularly with Treasury Ministers and raise issues as appropriate.

**Sue Essex:** Byddaf yn cyfarfod â Gweinidogion y Trysorlys yn rheolaidd ac yn codi materion fel y bo'n briodol.

### **Yr Adolygiad Parhaus o Fformiwla Barnett The Ongoing Review of the Barnett Formula**

**Q15 Glyn Davies:** Will the Minister make a statement about the ongoing review of the Barnett formula? OAQ0493(FIN)

**C15 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adolygiad parhaus o fformiwla Barnett? OAQ0493(FIN)

**Sue Essex:** I am not aware of any review of the Barnett formula.

**Sue Essex:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw adolygiad o fformiwla Barnett.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

#### **Blaenoriaethau ar gyfer y 12 Mis Nesaf Priorities for the Next 12 Months**

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Beth yw blaenoriaethau y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ0659(EPC)

**Q12 Rhodri Glyn Thomas:** What are the Minister for Environment, Planning and Countryside's priorities for the next 12 months? OAQ0659(EPC)

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** Byddaf yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r prif randdeiliaid i gyflawni'r ymrwymiadau ar gyfer yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad a amlinellwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. Fy mlaenoriaethau yw gwella ansawdd ein hamgylchedd, diogelu a bywiogi cefn gwlad, a hyrwyddo polisiau cynllunio, ffermio a pholisiau gwledig cynaliadwy.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** I will continue to work in partnership with key stakeholders to deliver the commitments for environment, planning and countryside set out in 'Wales: A Better Country'. My priorities are to improve the quality of our environment, to protect and create a vibrant countryside, and to promote sustainable planning, farming and rural policies.

#### **Y Strategaeth Bwyd-amaeth The Agri-food Strategy**

**Q13 Jeff Cuthbert:** Will the Minister provide an update on his agri-food strategy? OAQ0695(EPC)

**C13 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei strategaeth bwyd-amaeth? OAQ0695(EPC)

**Carwyn Jones:** Significant progress has

**Carwyn Jones:** Gwnaed cynnydd sylweddol

been made on delivering the agri-food strategy in Wales, focusing on adding value and providing a platform for promoting food and drink products from Wales. The strategy will be reviewed during 2006-07 with advice from the Wales agri-food partnership.

o ran cyflwyno'r strategaeth bwyd-amaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth a darparu sylfaen ar gyfer hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Caiff y strategaeth ei hadolygu yn ystod 2006-07 gyda chyngor gan bartneriaeth bwyd-amaeth Cymru.

### **Y Cynllun Stoc Trig The Fallen Stock Scheme**

**Q14 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the fallen stock scheme? OAQ0650(EPC)

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun stoc trig? OAQ0650(EPC)

**Carwyn Jones:** This year's performance under the national fallen stock scheme, particularly in north Wales has been very good. Collection times currently stand at 1.16 days with no reported complaints about the service. The number of collections so far this year has already exceeded last year's peak.

**Carwyn Jones:** Bu'r perfformiad eleni dan y cynllun stoc trig cenedlaethol yn dda iawn, yn arbennig yn y gogledd. Yr amseroedd casglu ar hyn o bryd yw 1.16 diwrnod heb unrhyw gŵynion am y gwasanaeth wedi eu cofnodi. Mae nifer y casgliadau hyd yma eleni eisoes yn fwy nag uchafswm y llynedd.

### **Lleihau Llygredd Aer Reducing Air Pollution**

**Q15 Jenny Randerson:** What action is the Minister taking to reduce air pollution? OAQ0664(EPC)

**C15 Jenny Randerson:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau llygredd aer? OAQ0664(EPC)

**Carwyn Jones:** The UK air quality strategy 2000 established a framework for achieving improvements in ambient air quality. New objectives were set in 2003. A review is under way, which aims to address performance and the attainability of existing objectives, and to generate further momentum for air quality improvements.

**Carwyn Jones:** Sefydlodd strategaeth ansawdd aer y DU yn 2000 fframwaith ar gyfer gwella ansawdd aer yr amgylchedd. Pennwyd amcanion newydd yn 2003. Mae adolygiad ar droed sy'n ymdrin â pherfformiad, ac a yw'n bosibl cyflawni'r amcanion presennol, yn ogystal ag ysgogi datblygiad pellach o ran gwella ansawdd aer.